Ymgyrch Beagle - mae angen eich help chi arnom ni

Ymagwedd amlasiantaeth at fynd i'r afael ag achosion o ddwyn metel sgrap yn Sir Gaerfyrddin yw 'Ymgyrch Beagle'.
Mae cynnydd yn y galw am fetelau fel copr a phlwm wedi arwain at gynnydd mewn lladradau. Ar gyfartaledd mae tua 26 o achosion o fetel sgrap yn cael ei ddwyn yn y sir yn fisol, ac mae'r rheiny'n cynnwys dwyn copr (ceblau, pibellau, gwifrau a thanciau), plwm, ffensys, rheiliau, gatiau, cloriau draeniau, trawsnewidyddion catalytig, a cherbydau sgrap.
Mae'r partneriaid yn yr ymgyrch yn cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Y nod yw targedu cludwyr gwastraff a chasglwyr metel sgrap anghyfreithlon, yn ogystal â chyfyngu ar y cyfleoedd sydd gan ladron i werthu neu waredu eitemau metel sydd wedi'u dwyn, a hynny drwy weithio gyda masnachwyr sgrap yn lleol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac i glustnodi lladron posibl.

Pwy sy'n ei ddwyn? Pwy sy'n ei storio? I ble mae'r metel yn mynd yn y diwedd?

Gallwch helpu drwy barhau i fod yn hynod wyliadwrus a thrwy roi gwybod i'r Heddlu am unrhyw ymddygiad amheus, yn cynnwys rhifau cofrestru ceir a disgrifiadau o'r unigolion dan sylw.
Ffoniwch 999 os yw'r drosedd yn digwydd ar y pryd neu ffoniwch 101 os nad yw'n argyfwng. Hefyd, gallwch chi ffonio Taclo'r Tacle Cymru yn ddi-enw - 0800 555 111.

Cofiwch:

Gofalwch fod metel sgrap o'r golwg a than glo bob tro.